HSC(6) 33-24 PTN 1

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy, LL17 0JG
----------------------------------
Block 5, Carlton Court, St Asaph Business
Park, St Asaph, LL17 0JG

**Russell George, MS**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeishasol,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1SN

**Ein cyf / Our ref:** [redacted]
**Eich cyf / Your ref:**
**☎:** [redacted]
**Gofynnwch am / Ask for:** [redacted]
**E-bost / Email:** [redacted]
**Dyddiad / Date:** 5ed Rhagfyr 2023

Trwy e-bost - SeneddHealth@senedd.wales
Ni fydd copi caled yn dilyn

Annwyl Russell,

**Re: Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Hoffwn ddiolch i chi am ein gwahodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 23 Tachwedd. Roedd yn gyfle i ni bwyso a mesur a myfyrio ar ble yr ydym nawr, y cynnydd rydym wedi'i wneud, a blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Mae ymgysylltu ag aelodau etholedig ym Mhwyllgorau'r Senedd, ac yn ein sesiynau briffio deufisol, yn ein galluogi i ddeall materion systemig ac mae hyn yn adborth amhrisiadwy. Rydym yn benderfynol o fod yn sefydliad sy'n edrych tuag allan ac yn gwrando sy'n ceisio ymgysylltu'n rhagweithiol ar bob lefel. Dyma'r unig ffordd y byddwn yn deall profiad cleifion; y da a'r drwg.

Wrth inni symud i gyfnod o *safoni, yn* dilyn *sefydlogi*, edrychwn ymlaen yn awr at benodi'r Cadeirydd sylweddol i weithio gyda'n Is-gadeirydd newydd a rhai aelodau annibynnol profiadol a rhai newydd.

Er bod llawer i'w wneud, fel y nodwyd gennym yn y Pwyllgor, rydym yn optimistaidd ac rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth ac anogaeth y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Dyfed Edwards**
**Cadeirydd/Chairman**

Yn gywir,

**Carol Shillabeer**
**Prif Weithredwr/Chief Executive**